# ATODLEN

Rheoliad 9

## DARPARIAETHAU DEDDFIADAU SY'N GYMWYS GYDAG ADDASIADAU I YSGOLION NEWYDD

**1.** Mae darpariaethau canlynol y Deddfau Addysg, sef—

(a) adrannau 324(5)(b), 324(5A) a 439 o Ddeddf Addysg 1996;

(b) adrannau 1, 84, 85A, 86, 87, 89B, 89C, 92, 94, 95 i 99, 101, 102 a 103(3) o Ddeddf 1998;

(c) unrhyw Reoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) a (b) uchod,

yn gymwys i ysgol newydd ond maent yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r addasiadau a bennir ym mharagraffau 2 i 8 isod.

**2.** Mae cyfeiriad mewn unrhyw un o'r darpariaethau a bennir ym mharagraff 1 at ysgol yn un o'r categorïau canlynol, sef—

(a) ysgol a gynhelir;

(b) ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol;

(c) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,

i'w ddehongli fel cyfeiriad at ysgol newydd a ddaw'n ysgol newydd o'r categori hwnnw pan fydd yn derbyn disgyblion am y tro cyntaf.

**3.** Mae cyfeiriad mewn unrhyw un o'r darpariaethau hynny at gorff llywodraethu ysgol i gael effaith fel petai'n gyfeiriad at gorff llywodraethu dros dro neu (pan fo'r cyd-destun yn caniatáu hynny) at unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion o dan y trefniadau derbyn cychwynnol.

**4.** Mae cyfeiriad mewn unrhyw un o'r darpariaethau hynny at drefniadau derbyn i'w ddehongli fel cyfeiriad at drefniadau derbyn cychwynnol fel y'u diffinnir yn rheoliad 3.

**5.** Mae cyfeiriad mewn unrhyw un o'r darpariaethau hynny at awdurdod derbyn i gael effaith fel petai'n gyfeiriad at awdurdod derbyn fel y'i diffinnir yn rheoliad 3.

**6** Mae adran 101(1) o Ddeddf 1998 i gael effaith fel petai “the year in which pupils are first to be admitted to a new school” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “any year”.

**7.** Mae adran 103(3) o Ddeddf 1998 i gael effaith fel petai'r geiriau “(whether authorised by section 100 or section 101)” wedi'u hepgor.

**8.** Nid yw Rhan 4 o Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**1**) i fod yn gymwys i unrhyw ysgol newydd, y mae dyddiad agor yr ysgol honno rhwng 15 Ebrill ac 1 Awst mewn unrhyw flwyddyn.

(**1**) O.S. 1999/1812 diwygiwyd gan O.S. 2001/1111 (Cy.55), O.S. 2001/3710 (Cy.306), O.S. 2002/1400 (Cy.139), O.S. 2004/1736 (Cy.179).